# CYLCHLYTHYR CAMAU

## Dathlu Camau

Mae cyrsiau Cymraeg Camau yn 'gyrsiau Cymraeg Gwaith' sy'n bwrpasol ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.
Mae'r cyrsiau yn ddulliau hunan-astudio ac yn cwmpasu 60 awr Mynediad, Sylfaen a Lefel Ganolradd.
'Llongyfarchiadau i'r 635 o ddysgwyr a gofrestrodd ar y cyrsiau Camau a'r 399 hynny a gwblhaodd'.

**Adroddiad Blynyddol Camau Cwlwm 2024 - 25**
Mae'r adroddiad Camau hwn yn cofnodi blwyddyn o gynnydd, cydweithredu, ac effaith Camau ar arfer dysgwyr i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar ledled Cymru.

**cwlwm.org.uk/cy/our-work/reports**.

Fideo yn tynnu sylw at gyflawniad Cwlwm o'r cyrsiau Camau 24/25 Blwyddyn o Gynnydd https://youtu.be/ksgIcEjsXcY.

## Llais y Dysgwyr

Gofynnon ni i staff Meithrinfa Lullabyz yng Nghasnewydd rannu eu profiadau gonest o'r cyrsiau Camau – ateb cwestiynau go iawn i helpu eraill i deimlo'n hyderus wrth ddechrau eu taith eu hunain. Cymerwch olwg isod:

Camau - Llais y dysgwyr - YouTube.

## Cynnwys yr Unedau

Ydych chi'n chwilfrydig am yr hyn y mae pob uned Camau yn ei gynnwys? Mae ein fideos dwyieithog newydd yn rhoi trosolwg clir o'r cynnwys, gan eich helpu i weld beth i'w ddisgwyl cyn i chi ddechrau ar eich taith Gymraeg. https://cwlwm.org.uk/camau-0.

## Gwaith Cymraeg

Hoffech chi ddangos i bawb eich bod chi'n siaradwr Cymraeg neu eich bod chi'n dysgu'r iaith? Am ragor o wybodaeth cliciwch ar y ddolen: Adnoddau a nwyddau | Dysgu Cymraeg.

## Offer Defnyddiol

**Cysill**
Mae Cysill yn wiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg. Gall Cysill hefyd gywiro mwtaniad a phan ddarganfyddir gwallau dynnu sylw at pam mae'r gwall yn cael ei ystyried yn anghywir. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Cysill: Cysill Ar-lein.

**Heloblod**
Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu Cymraeg am ddim i fusnesau ac elusennau. 500 o eiriau wedi'u cyfieithu bob mis yn rhad ac am ddim. I gael rhagor o wybodaeth a'r hyn y gall Helo Blod ei ddarparu, edrychwch: Croeso i Helo Blod | Helo Blod.

**Geiradur**
Mae geiriadur Cymraeg Saesneg gan Brifysgol Bangor ar gael ar-lein. Chwiliwch am eiriau Saesneg a dod o hyd i'r hyn sy'n cyfateb â Chymraeg: Geiriadur Bangor.

**Fideos Awgrymiadau**
Mae ein fideos awgrymiadau cyflym yma i'ch tywys bob cam o'r ffordd. Gwelwch y fideos yma: https://cwlwm.org.uk/cy/cymorth-porth-camau.

## Gweithio â Cwlwm

Consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae sy'n darparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Edrychwch ar wefan Cwlwm am llwyth o wybodaeth ac adnoddau dwyieithog.

Ewch i dudalen Facebook Cwlwm am awgrymiadau defnyddiol, diweddariadau sector, a chymorth Cymraeg. Rydym yn rhannu cyngor ymarferol a'r newyddion diweddaraf i gefnogi eich taith blynyddoedd cynnar – i gyd mewn un lle!

https://www.facebook.com/cwlwm/?locale=en_GB.

P'un a oes gennych gwestiwn cyflym, angen cymorth technegol, neu dim ond eisiau rhywfaint o arweiniad, mae croeso i chi alw heibio!

Sesiwn galw heibio wythnosol bob dydd Mercher rhwng 12:30 PM a 1:00 PM ar Teams. Cliciwch yma i ymuno.

## Cysylltu â Cwlwm

Mae gan bob partner Cwlwm staff ymroddedig sy'n barod i'ch cefnogi drwy gydol eich taith Camau. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni os hoffech help neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am Camau, rydyn ni yma i chi!

Gallwch ddod o hyd i'w manylion yma: https://cwlwm.org.uk/cy/cydlynwyr-cymorth.